# Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | T Ll Hughes, K P Hughes, R Ll Jones, G O Jones, H. Eifion Jones a Alun W Mummery |
| **WRTH LAW :** | Trysorydd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | A M Jones a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rubert Cecil, Cyfarwyddwr, Elusennau – HSBC Global Asset Management (UK) Limited |

---

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfnod Mr. T.Ll. Hughes yn yr ysbyty yn ddiweddar a nododd ei fod yn falch o'i weld yn bresennol yn y cyfarfod.

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Ailetholwyd Mr. H. Eifion Jones yn Gadeirydd.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Ailetholwyd Councillor G.O. Jones yn Is-Gadeirydd.

### 3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 4 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2015 yn gywir.

**Yn codi o'r cofnodion**

**Contract i Wasanaethau Oedolion**

Adroddwyd y bydd adroddiad ar y contract ar gyfer Gwasanaethau Archwilio yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

### 5 RHEOLI BUDDSODDI

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) Limited hyd at fis Tachwedd 2015.

Adroddodd y Rheolwr Buddsoddi mai amcan y portffolio yw tyfu'r cyfalaf yn unol â chwyddiant a chreu digon o incwm i gwrdd â gofynion llif arian sy'n cael eu cytuno'n flynyddol gyda'r ymddiriedolwyr. Y strategaeth y cytunwyd arni yw mynd tu hwnt i'r meincnod sefydlog o 1.5% a gytunwyd bob blwyddyn dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Roedd gwerth y gronfa ar 17 Tachwedd 2015 yn £16,930,549. Yn y cyfarfod heddiw mae gwerth y gronfa wedi cynyddu i £17,100,000.

Eglurwyd perfformiad y portffolio a’r perfformiad tymor hir yn fanwl i’r Pwyllgor. Nodwyd fod portffolio’r Ymddiriedolaeth wedi symud i ‘Gronfa Twf ac Incwm’ erbyn hyn ar ôl i’r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn gefnogi’r symudiad yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2015.

Cyfeiriodd y Rheolwr Buddsoddi at werthiant Tir Rhosgoch yn ddiweddar am gyfanswm o £3m. Cafwyd trafodaethau ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y buddsoddiad. Roedd Aelodau’r Pwyllgor yn ystyried y dylid rhoi’r £3m o werthiant Tir Rhosgoch gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Diolch i’r cynrychiolydd o HSBC am fynychu’r cyfarfod, a derbyn yr adroddiad;**
- **Argymell i’r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn bod y £3m o werthiant Tir Rhosgoch yn cael ei roi gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Mr. H. Eifion Jones**
**Cadeirydd**